

---

# Safonau hyfedredd ar gyfer ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol cymwysterau

---

Cyhoeddiad gwreiddiol: 7 Gorffennaf 2022



# Contents

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>	<b>Platform 3</b>	<b>Asesu galluoedd ac anghenion pobl, a chynllunio gofal</b>	<b>16</b>
Beth rydyn ni'n ei wneud	3	<b>Platform 4</b>	<b>Darparu a gwerthuso gofal ar sail tystiolaeth</b>	<b>19</b>
Addysg a hyfforddiant y tu hwnt i gofrestrriad cychwynnol	3	<b>Platform 5</b>	<b>Arwain, cefnogi a rheoli timau</b>	<b>22</b>
Nyrsio cymunedol yn yr 21ain ganrif	4	<b>Platform 6</b>	<b>Arwain gwelliannau mewn diogelwch ac ansawdd gofal</b>	<b>25</b>
Ynglŷn â'r safonau hyn	5	<b>Platform 7</b>	<b>Cydgysylltu gofal ac arwain systemau</b>	<b>27</b>
Natur safonau rheoleiddio	6	<b>Geirfa</b>		<b>29</b>
Strwythur y safonau hyn	8			
Y saith plattform	9			
Fframwaith deddfwriaethol	9			
<b>Platform 1</b>				
<b>Bod yn weithiwr proffesiynol atebol, ymreolaethol ac yn bartner mewn gofal</b>	<b>10</b>			
<b>Platform 2</b>				
<b>Hyrwyddo iechyd a lles ac atal afiechyd</b>	<b>13</b>			

Cafodd y safonau hyn eu cymeradwyo gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar 26 Mai 2022. Cawsant eu hailgynllunio ym mis Mawrth 2024.

---

# Rhagair

## Yr hyn a wnawn

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (yr 'NMC') osod safonau hyfedredd, addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol sy'n ceisio ymuno â'n cofrestrau am y tro cyntaf. Fel rhan o hyn rydym yn adolygu ein safonau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd, eu bod yn addas at y diben, a'u bod yn angenrheidiol ar gyfer gofal diogel, effeithiol a charedig. Pan fyddwn yn adolygu unrhyw un o'n safonau, gan gynnwys safonau sy'n arwain at anodi, rydym yn cymryd ystyried tystiolaeth newydd, y newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas a newidiadau mewn iechyd a gofal.

## Addysg a hyfforddiant y tu hwnt i gofrestriad cychwynnol

Yn y gwasanaethau iechyd a gofal heddiw, rydym yn cydnabod bod rolau nyrsys, bydwreagedd a chymdeithion nyrsio (yn Lloegr) yn newid ac yn ehangu, a bod angen lefelau uwch o ymreolaeth, gwybodaeth a sgiliau er mwyn cyflawni eu potensial yn llawn a chyfrannu at ddarparu gwasanaethau er budd y [pobl](#) y maent yn eu gwasanaethu. Mae pawb ar ein cofrestr yn ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ychwanegol ar ôl eu cofrestriad proffesiynol cychwynnol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau pellach, ond nid yw'r holl addysg barhaus hon yn cael ei reoleiddio neu angen ei reoleiddio.

Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gymesur at reoleiddio cymwysterau ôl-gofrestru. Rydym yn cadw rheoliadau ar gyfer y meysydd hynny lle mae angen sicrhau cysondeb safonau hyfedredd, a safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, i gyflawni a lefel uwch o ansawdd a diogelwch er mwyn lliniaru risg ac i tawelu meddwl y cyhoedd. Un o'r ffyrdd sydd gennym o gydnabod cymwysterau ôl-gofrestru yw drwy osod safonau ar gyfer cymwysterau [ymarfer arbenigol](#) (SPQs).

Mae cymwysterau ymarfer arbenigol yn anodiadau i'n cofrestr. Maent yn nodi bod nyrs gofrestredig wedi dilyn rhaglen SPQ a gymeradwyir gan yr NMC yn llwyddiannus sy'n bodloni ein safonau mewn maes ymarfer penodol. Er mwyn ymgymryd â chymhwyster ymarfer arbenigol, rhaid i chi fod yn nyrs gofrestredig lefel gyntaf.

## Nyrsio cymunedol yn yr 21ain ganrif

Yn yr 21ain ganrif, mae cymorth a gofal i bobl o bob oed yn cael eu darparu fwyfwy yn y gymuned, yng nghartrefi pobl ac mewn lleoliadau sy'n agos at eu cartrefi. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys cartrefi gofal, hosbisau, ymarfer cyffredinol, lleoliadau preswyl ac addysgol, a charchardai a lleoliadau iechyd troseddwr. O ganlyniad, mae modelau newydd o ofal cymunedol yn dod i'r amlwg, mae rolau nyrsio newydd wedi'u datblygu ac mae'n debygol y bydd mwy yn y dyfodol. Nid yw nifer cyfyngedig yr SPQs [nyrsio cymunedol](#) sydd gennym ar hyn o bryd – nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal a nyrsio ymarfer cyffredinol – bellach yn cynrychioli'r cyfanrwydd ymarfer nyrsio arbenigol yn y gymuned.

Nid yw meddu ar gymhwyster ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol yn ofyniad i weithio yn y gymuned neu i ofalu am unrhyw grŵp cleientiaid unigol. Ar gyfer y mwyafrif o rolau nyrsio, mae cyfuniad o safonau ymddygiad ac ymarweddiad proffesiynol sydd wedi'u hymgorffori yn [y Cod](#), a'r gofyniad i fodloni'r wybodaeth a'r sgiliau a nodir yn y safonau hyfedredd nyrsio cyn cofrestru, ynghyd ag ail-ddilysu dilynol a pharhaus, yn ddigonol ar gyfer rheoleiddio effeithiol. Er mwyn cymryd ymagwedd gymesur, mae angen i ni ystyried pa rolau a gweithgareddau sy'n cyfiawnhau rheoleiddio ar lefel ôl-gofrestru.

## Ynglŷn â'r safonau hyn

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein safonau hyfedredd nyrsio cymunedol arbenigol newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer nyrsys cofrestredig. Mae'r hyfedreddau hyn yn adlewyrchu'r wybodaeth, sgiliau a nodweddion arbenigol sydd eu hangen ar nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned mewn unrhyw rolau sy'n cynnwys angen i wneud penderfyniadau mwy ymreolaethol, mewn sefyllfaoedd lle mae angen i nyrsys cofrestredig reoli mwy o gymhlethdod clinigol a risg, o ran y bobl maent yn gofalu amdanynt, y [llwythi achosion](#) y maent yn eu rheoli a'r gwasanaethau y maent yn gweithio ynddynt, a all yn ei dro gael ei integreiddio ag asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a disgyblaethau eraill.

Yn ein [strategaeth 2020-2025](#) rydym wedi gwneud ymrwymiad i archwilio a oes angen rheoleiddio ymarfer uwch. Mae'r cymwysterau nyrsio cymunedol arbenigol newydd hyn yn ymgorffori safonau hyfedredd a fydd yn cefnogi nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn y gymuned i ddatblygu eu gwaith clinigol, rheolaethol, ymchwil ac ymarfer addysgiadol. Bydd hyn yn galluogi mwy o ymreolaeth glinigol, gwneud penderfyniadau annibynnol ac arweinyddiaeth mewn sefyllfaoedd cymhleth â risg uchel er budd pobl a gwasanaethau.

Mae'n debygol y bydd mwy o rolau nyrsio cymunedol yn cael eu datblygu yn y dyfodol sydd hefyd yn galw am lefelau uwch o ymreolaeth glinigol. Mae'r safonau hyn felly yn adeiladu ar arfer da cyfredol ac yn bwriadu hyrwyddo dysgu a chreu uchelgais a chyfle ar gyfer nyrsys cofrestredig eraill sy'n gweithio yn y gymuned. Dyma pam rydym wedi cyflwyno SPQ newydd ar gyfer meysydd eraill o ymarfer nyrsio cymunedol.

## Natur safonau rheoleiddio

Bwriedir i safonau rheoleiddio fod ar lefel uchel ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Maent yn cael eu trosi gan sefydliadau addysg a'u partneriaid lleoli ymarfer i gwricwla a deilliannau dysgu rhaglenni manylach. Mae'r safonau hyfedredd craidd a maes-benodol hyn yn berthnasol i holl feysydd nyrsio cymunedol, fodd bynnag bydd y sylfaen dystiolaeth a'u cymhwysiad mewn gwahanol feysydd nyrsio cymunedol yn wahanol. Felly, dylid darllen y safonau hyn ochr yn ochr â Gwireddu proffesiynoldeb: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, sy'n pennu ein disgwyliadau o ran darparu'r holl raglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

Mae'r safonau hyn yn berthnasol i bob darparwr addysg cymeradwy a maent wedi'u gosod mewn tair rhan:

- **Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth**
- **Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr**
- **Rhan 3: Safonau rhaglenni, sef y safonau sy'n benodol ar gyfer pob rhaglen cyn-gofrestru neu ôl-gofrestru.**


Dangosir y berthynas rhwng y gwahanol setiau o safonau yn y diagram ar y dudalen hon. Rhaid i sefydliadau addysgol fodloni ein safonau rhaglenni er mwyn cael eu cymeradwyo i gyflwyno rhaglen sy'n arwain at un o'r cymwysterau SPQ's: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal, nyrsio ymarfer cyffredinol neu nyrsio cymunedol arbenigol.

Y sail resymegol ar gyfer yr anodiad SPQ nyrsio cymunedol newydd nad yw'n pennu maes penodol o rôl nyrsio cymunedol yw y gellir ei gymhwysu i nyrsys cofrestredig sy'n gweithio mewn gwahanol rolau cymunedol, gan gynnwys rolau newydd posibl sy'n dod i'r amlwg y gymuned, sy'n gofyn i weithwyr proffesiynol feddu ar y wybodaeth a sgiliau a nodir yn y safonau hyn er mwyn ymarfer gyda lefelau uwch o ymreolaeth glinigol a darparu gwell gwasanaeth ar gyfer y bobl yn eu gofal.

Gyda'i gilydd nod y safonau hyn yw darparu sefydliadau addysg cymeradwy (AEIs) a'u partneriaid dysgu ymarfer gyda'r hyblygrwydd i ddatblygu dulliau arloesol o addysgu, helpu nyrsys cofrestredig i gyflawni cymhwyster SPQ nyrsio cymunedol, tra hefyd bod yn atebol am y ddarpariaeth leol a rheoli rhaglenni SPQ nyrsio cymunedol ôl-gofrestru cymeradwy yn unol â'n safonau. Dangosir y berthynas rhwng y gwahanol setiau o safonau yn y diagram ar y dudalen nesaf.

# Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

## Rhan 1



## Rhan 2




## Rhan 3 - Safonau rhaglenni


### Cyn-cofrestru



### Ôl-cofrestru



# Safonau hyfedredd



## Strwythur y safonau hyn

Mae'r ymagwedd at y safonau hyfedredd yn cyd-fynd â Nyrs y dyfodol, ein [safonau newydd ar gyfer nyrsys cofrestredig](#).

Mae'r safonau wedi'u trefnu o dan saith pennawd, ac roeddent wedi'u cynllunio i sicrhau, ar draws pob maes ymarfer nyrsio, bod nyrsys cofrestredig yn gallu bodloni anghenion gofal [person-ganolog](#), holistaidd y bobl y maent yn dod ar eu traws yn eu hymarfer a allai feddu ar ystod o anghenion meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol neu ysbrydol. Mae'r uchelgais hwn hefyd yn berthnasol i nyrsio cymunedol arbenigol i ddiwallu anghenion amrywiol pobl o bob oed, yn eu cartref, mewn lleoliadau sy'n agos i'w cartref ac yn y gymuned.

Mae gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr eisoes yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gofrestru fel nyrs. Mae'r safonau hyfedredd nyrsio cymunedol arbenigol hyn yn nodi'r wybodaeth a sgiliau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer SPQs nyrsio cymunedol.

Bydd yr hyfededdau hyn yn darparu nyrsys cymunedol ôl-raddedig newydd ag SPQs sydd yn dod i mewn i'r proffesiwn gyda'r wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sydd eu hangen arnynt pan ydynt yn cofnodi eu cymhwyster ar y gofrestr. Bydd nyrsys cymunedol sydd ag SPQ yn adeiladu ar yr hyfedreddau wrth iddynt ennill profiad a chyflawni eu cyfrifoldeb proffesiynol. Byddant yn arddangos eu hymrwymiad i datblygu fel ymarferwr cymunedol arbenigol ac i adeiladu llwybr gyrfa, gan gymryd rhan mewn cyfleoedd addysg a datblygiad proffesiynol parhaus sydd eu hangen ar gyfer ailddilysu.



## Y saith platfform yw

**Platfform 1:** Bod yn weithiwr proffesiynol atebol, ymreolaethol ac yn bartner mewn gofal

**Platfform 2:** Hyrwyddo iechyd a lles ac atal afiechyd

**Platfform 3:** Asesu galluoedd ac anghenion pobl, a chynllunio gofal

**Platfform 4:** Darparu a gwerthuso gofal ar sail tystiolaeth

**Platfform 5:** Arwain, cefnogi a rheoli timau

**Platfform 6:** Arwain gwelliannau mewn diogelwch ac ansawdd gofal

**Platfform 7:** Cydgysylltu gofal ac arwain systemau

Gyda'i gilydd, bydd yr hyfedreddau hyn, a ddatblygir mewn rhaglen addysgol wedi'i strwythuro'n briodol, yn darparu nyrsys sy'n ymgymryd ag SPQs nyrsio cymunedol gyda'r gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sydd eu hangen arnynt i weithio o fewn eu maes ymarfer nyrsio cymunedol araethedig.

## Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 19(6) Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn') yn caniatáu i'r NMC sefydlu safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer unrhyw gymwysterau ychwanegol y gellir eu cofnodi ar y gofrestr.

Bydd erthyglau 15(3) i (9) ac erthyglau 16 i 18 o'r Gorchymyn yn gymwys ar gyfer y safonau hynny fel pe byddent yn safonau a sefydlwyd o dan erthygl 15(1)(a). Mae hyn yn golygu y gall yr NMC sefydlu safonau addysg a hyfforddiant ac y gall gymeradwyo cwrs addysg neu cymhwyster mewn perthynas ag SPQs.

---

# Platfform 1

## Bod yn weithiwr proffesiynol atebol, ymreolaethol ac yn bartner mewn gofal

Mae'n ofynnol i bob nyrs gofrestredig gyda chymhwyster ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol weithio'n annibynnol yng nghartrefi pobl, yn agos i gartref neu yn y gymuned, gyda phobl o bob oedran. Maent yn gweithio mewn amgylcheddau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol, a maent yn gweithio gyda, ac yn dirprwyo i, dimau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol amrywiol sy'n ymwneud â darparu gofal. Mae'r timau hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol cofrestredig, cydweithwyr eraill nad ydynt ar gofrestr broffesiynol, gofalwyr, aelodau o'r teulu, gwirfoddolwyr ac eraill sy'n gweithio mewn sefydliadau'r trydydd sector.

Maent yn aml yn gweithio mewn lleoliadau anrhagweladwy, anghonfensiynol a chymhleth, gyda risgiau uwch o ganlyniad. Maent yn gweithio'n annibynnol, ac mae angen gwybodaeth a sgiliau arbenigol arnynt, er mwyn gweithio'n effeithiol fel gweithiwr proffesiynol annibynnol, atebol.

Mae llawer o nyrsys cymunedol yn arbenigo mewn gofalu am grŵp cleientiaid penodol neu maent yn arbenigwyr mewn maes ymarfer penodol. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau cymunedol arbenigol yng nghyd-destun eu maes ymarfer arfaethedig a'r lleoliad y maent yn ymarfer ynddo. Fel nyrsys cofrestredig, maent yn cadw at **y Cod**, ac yn bodloni pob un o'r Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig sy'n berthnasol i'w maes ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol.

## Canlyniadau

### Bydd nyrsys cofrestredig gyda'r cymhwyster hwn yn eu maes ymarfer arfaethedig, yn gallu:

- 1.1** ymarfer yn annibynnol, yn rhagweithiol ac yn arloesol, gan arddangos hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a didwylledd
- 1.2** arwain a rheoli gwasanaeth, gyda'r gallu i roi mynediad, rhyddhau ac atgyfeirio pobl yn effeithiol at weithwyr proffesiynol, gwasanaethau ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol
- 1.3** darparu gofal arbenigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn amgylchiadau cymhleth, heriol ac anrhagweladwy
- 1.4** rhoi cyfrif am eu penderfyniadau, eu gweithredoedd a'u hepgoriadau wrth weithio gyda chymhlethdod, risg, natur sefyllfaoedd anrhagweladwy a phryd efallai na fydd y wybodaeth ofynnol i gyd ar gael
- 1.5** deall yn feirniadol a chymhwyso gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a llywodraethu, polisïau, a fframweithiau proffesiynol a moesegol, gan wahaniaethu lle bo'n briodol rhwng deddfwrfeydd datganoledig y Deyrnas Unedig
- 1.6** arwain a hyrwyddo darpariaeth gofal sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn wrthwahaniaethol, yn ddiwylliannol gymwys ac yn gynhwysol
- 1.7** dangos ymwybyddiaeth feirniadol o stigma a'r potensial i ddangos rhagfarn, cymryd camau i ddatrys unrhyw annhegwch sy'n deillio o'r naill neu'r llall, ac addysgu eraill lle bo angen
- 1.8** cydnabod yr angen am, ac arwain ar gamau gweithredu i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl, grwpiau a chymunedau, gan ddylanwadu ar bolisi iechyd ac yn hyrwyddo arfer gorau
- 1.9** arddangos egwyddorion dewrder, tryloywder a'r dyletswydd broffesiynol o onestrwydd, gan gymryd cyfrifoldeb i fynd i'r afael ag arfer gwael lle bynnag y deuir ar ei draws
- 1.10** myfyrio'n feirniadol a chydabod pryd y gallai eu gwerthoedd personol a chredoau effeithio ar eu hymddygiad a'u hymarfer

- 
- 1.11** asesu cyfleoedd, risg a gofynion ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol, a chymryd camau i gynnal eu hiechyd a lles meddyliol a chorfforol eu hunain
  - 1.12** cymhwyso'r sgiliau rhifedd, llythrennedd, digidol a thechnolegol i ddarparu ymarfer arbenigol diogel ac effeithiol sy'n diwallu anghenion pobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr
  - 1.13** bod yn llysgennad effeithiol ac yn fodel rôl, ac yn ddylanwad cadarnhaol ar y proffesiwn.

---

## Platfform 2

# Hyrwyddo iechyd a lles ac atal afiechyd

Mae nyrsys cofrestredig gyda chymhwyster ymarfer nyrso cymunedol arbenigol yn ganolog i ddiogelu iechyd a hyrwyddo iechyd a lles. Maent yn chwarae rhan ganolog mewn cyd-ddylunio darpariaeth gofal sydd yn cefnogi ac yn gwella iechyd a lles meddyliol, corfforol ac ymddygiadol gyda'r bobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau y maent yn eu gwasanaethu.

Maent yn ymgysylltu'n effeithiol, gan weithio gyda phobl o bob oedran gartref, yn agos i gartref neu yn y gymuned, ac yn eu cefnogi i wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain a all wella eu hiechyd a gofal. Maent yn hyrwyddo iechyd ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd, gan hyrwyddo cyfranogiad mewn rhaglenni ac ymyriadau iechyd y cyhoedd lleol a chenedlaethol. Gan defnyddio eu gwybodaeth o **asedau cymunedol**, mae nyrsys cymunedol gyda chymhwyster arbenigol yn adeiladu ar eu rhyngweithiadau o ddydd i ddydd i gefnogi pobl i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a lles meddyliol a chorfforol.

## Canlyniadau

### Bydd nyrsys cofrestredig gyda'r cymhwyster hwn yn eu maes ymarfer arfaethedig, yn gallu:

- 2.1** cymhwyso gwybodaeth arbenigol am epidemioleg, demograffeg a **penderfynyddion iechyd** a salwch, gan gymryd camau i ddylanwadu ar bolisi, cynllunio a darparu gwasanaethau
- 2.2** dadansoddi'n feirniadol y ffactorau a all arwain at anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd, a'u dilemâu moesegol cysylltiedig, i gynllunio gofal mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a chymunedau i'w gwella
- 2.3** cydnabod iechyd fel hawl ddynol sylfaenol a gwerthuso effeithiau dylanwadau cymdeithasol, **llythrennedd iechyd**, amgylchiadau unigol, ymddygiadau a dewisiadau ar iechyd meddyliol a chorfforol pobl nawr ac yn y dyfodol
- 2.4** asesu anghenion iechyd yn feirniadol mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau, i'w cefnogi i gymryd penderfyniadau a chamau gweithredu sy'n gwella eu hiechyd a'u lles meddyliol, corfforol ac ymddygiadol eu hunain
- 2.5** gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl, teuluoedd, cymunedau a poblogaethau ddefnyddio eu cryfderau personol a'u hasedau i wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles eu hunain
- 2.6** cynnal, dehongli a gwerthuso asesiadau iechyd a gofal cymdeithasol, sgrinio a phroffilio gweithgarwch ar gyfer pobl a cymunedau, er mwyn cymryd camau priodol i wella canlyniadau iechyd
- 2.7** cymhwyso gwybodaeth arbenigol am ragnodi cymdeithasol i gefnogi canlyniadau iechyd unigol a chymunedol
- 2.8** dadansoddi ac asesu'n feirniadol nodweddion cymunedau, eu hasedau ac unrhyw feysydd i'w datblygu er mwyn adeiladu rhwydweithiau a chynghreiriau a all wella canlyniadau iechyd i bobl a theuluoedd
- 2.9** hyrwyddo a chefnogi pobl, cymunedau a phoblogaethau i cysylltu'n effeithiol â mentrau lleol, rhwydweithiau cymorth, rhaglenni a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles
- 2.10** defnyddio a gwerthuso effaith rhwydweithiau i wella a chefnogi anghenion meddyliol a chorfforol pobl, teuluoedd a chymunedau, a nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o ran cymorth

- 
- 2.11** deall rôl a chymhwysiad genomeg ac epigeneteg yn ddigon manwl i hysbysu a chynghori pobl am y goblygiadau ar gyfer gofal iechyd personol
  - 2.12** cymhwyso ystod o sgiliau cyfathrebu uwch i ddatblygu gwybodaeth iechyd y cyhoedd sydd yn hygyrch ac yn galluogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles
  - 2.13** rhannu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy a dulliau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwylidwriaeth clefydau trosglwyddadwy, atal a rheoli heintiau, gan gynnwys rhaglenni imiwneiddio a brechu
  - 2.14** lliniaru risgiau ffactorau amgylcheddol a llygryddion eraill sydd â'r potensial i effeithio ar iechyd a lles pobl nawr ac yn y dyfodol.

---

## Platfform 3

# Asesu galluoedd ac anghenion pobl, a chynllunio gofal

Mae pobl o bob oed yn derbyn gofal a chymorth yn y cartref ac yn y cymuned. Efallai fod ganddynt anghenion gofal aciwt cymhleth, neu eu bod yn byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd neu gyflyrau hirdymor, neu efallai fod ganddynt gydafiacheddau lluosog sy'n effeithio ar eu hiechyd meddyliol a chorfforol.

Mae gan bob nyrs gofrestredig gyda chymhwyster ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r priodolddau i fod yn weithiwr proffesiynol arweiniol wrth ofalu am bobl yn eu maes arfaethedig o ymarfer nyrsio cymunedol. Mae eu gwybodaeth a sgiliau arbenigol yn rhoi'r gallu iddynt ymarfer lefel uchel o farn broffesiynol a gallu gwneud penderfyniadau cymhleth. Maent yn fedrus iawn wrth ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gweld y person cyn y cyflwr, er mwyn gwneud **asesiadholistaidd** personol. Maent yn **cydgynhyrchu cynlluniau** gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda phobl, gan gymryd y cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i ystyriaeth, ynghyd â galluoedd ac anghenion meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol ac ysbrydol pob person.

Maent yn datblygu perthnasoedd therapiwtig gyda phobl, eu teuluoedd, gofalwyr neu **berson enwebedig** i hwyluso gwneud penderfyniadau ar y cyd. Maent yn ystyried profiadau, galluoedd, anghenion, dewisiadau a heriau amrywiol y mae pobl yn byw gyda nhw er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn gyraeddadwy ac yn gallu cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Maent yn darparu gwybodaeth a chymorth i bobl, a'u teuluoedd, gofalwyr neu bersonau enwebedig lle bo angen, i hwyluso gwneud penderfyniadau ynghylch sut mae eu gofal yn cael ei ddarparu ac yn cytuno ar gyfleoedd ar gyfer hunanofal â chymorth. Maent yn nodi ac yn darparu'r lefel briodol o gymorth, addysg a gwybodaeth i eraill megis rhieni, teulu, gofalwyr ffurfiol ac anffurfiol, neu berson enwebedig. Maent yn asesu a rheoli risgiau wrth wneud atgyfeiriadau i, neu dderbyn atgyfeiriadau gan dimau rhyngasiantaethol eraill.



## Canlyniadau

### Bydd nyrsys cofrestredig gyda'r cymhwyster hwn yn eu maes ymarfer arfaethedig, yn gallu:

- 3.1** creu a chymhwyso ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at ofal, gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd o fewn y broses asesu a chynllunio gofal wrth weithio gyda phobl, eu teuluoedd neu ofalwyr, a chymunedau
- 3.2** defnyddio strategaethau cyfathrebu uwch a sgiliau rheoli perthnasoedd wrth ryngweithio â phobl, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr, a all fod ag amrywiaeth o heriau iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol a chymdeithasol
- 3.3** cydnabod a chymhwyso **egwyddor y rhagdybiaeth o alluedd**, a'r gofyniad i geisio caniatâd gwybodus drwy gydol y broses asesu a chynllunio
- 3.4** gwneud addasiadau rhesymol i wneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl ddeall canlyniad eu hasesiad galluoedd ac anghenion, a'r goblygiadau ar gyfer eu triniaeth a'u gofal
- 3.5** gwneud **penderfyniadau ynghylch lles pennaf** o fewn y fframwaith deddfwriaeth gofynnol os, ar ôl ceisio caniatâd gwybodus a gwneud addasiadau rhesymol, eu barn broffesiynol yw nad oes gan berson alluedd i wneud penderfyniad neu roi caniatâd ar yr adeg honno
- 3.6** asesu a chynllunio gofal **pobl pan ydynt yn agored i niwed**, an gytuno ar y lefel angenrheidiol o gymorth sydd ei angen i sicrhau'r lefelau uchaf o annibyniaeth drwy gydol y continwwm gofal
- 3.7** uwchgyfeirio, adrodd, cynllunio a chydgyssylltu gofal uniongyrchol a pharhaus i bobl sydd angen eu diogelu
- 3.8** mynd ati'n rhagweithiol i gael a distyllu gwybodaeth o ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol i lywio asesiadau unigol, gan gynnwys pobl eraill yn ôl yr angen
- 3.9** dadansoddi gwybodaeth a data asesu cymhleth yn feirniadol, gan wahaniaethu rhwng canfyddiadau normal ac annormal, gan gydnabod pryd mae angen gweithredu'n brydlon, gan gynnwys gofyn am ymchw

- 3.10** cymhwyso rhesymeg glinigol yn feirniadol wrth wneud penderfyniadau, gymryd i ystyriaeth ddiagnosis gwahaniaethol a'r potensial ar gyfer cysgodi diagnostig
- 3.11** gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg a gwybodeg i gynorthwyo ag asesu a diagnosis
- 3.12** cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o wyddoniaeth a thechnoleg newydd a sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys genomeg, i lywio opsiynau asesu a thriniaeth, wrth gytuno ar gynlluniau gofal personol gyda phobl a'u teuluoedd, gofalwyr neu bersonau enwebedig
- 3.13** defnyddio ystod o sgiliau datrys problemau, dylanwadu a negodi i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wneud penderfyniadau ar y cyd wrth gydgyhyrchu cynlluniau gofal
- 3.14** asesu galluoedd ac anghenion unigol wrth gydgyhyrchu cynlluniau gofal, cytuno ar gyfleoedd ar gyfer hunanofal â chymorth ac ymyriadau triniaeth
- 3.15** ystyried effaith dewisiadau pobl, eu perthnasoedd agos a'u systemau cymorth, eu hamgylchedd cartref, a dylanwad ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac ysbrydol wrth gytuno ar y cynllun gofal
- 3.16** creu a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl, a lle bo angen eu teuluoedd, gofalwyr neu berson enwebedig, i aros yn annibynnol ac i hwyluso hunanofal
- 3.17** cyfathrebu'n effeithiol fanteision a risgiau gwahanol opsiynau gofal a thriniaeth, gan esbonio sut y bydd y person a'i deulu neu ofalwyr yn cael eu cefnogi yn y dewisiadau a wnânt
- 3.18** rhagweld ac esbonio'r effaith y gallai digwyddiadau annisgwyl a newidiadau posibl ei chael ar y cynllun gofal.

---

## Platfform 4

# Darparu a gwerthuso gofal ar sail tystiolaeth

Mae pob nyrs gofrestredig gyda chymhwyster ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol yn cymryd yr awenau wrth ddarparu ymyriadau diogel sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yng nghyd-destun y grwpiau cleientiaid a lleoliadau penodol o fewn eu maes ymarfer SPQ arfaethedig. Maent yn gallu cychwyn a darparu ystod o ofal a thriniaeth a all gefnogi, gwella, lleddfu symptomau liniaru. Maent yn sicrhau bod y gofal y maent yn ei ddarparu neu'n ei ddirprwyo yn hyblyg, dynamig ac o safon gyson uchel.

Maent yn gallu ymgymryd ag ystod o ymyriadau yn annibynnol i gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles person, ac i reoli cyfnodau gofal cyflawn mewn perthynas â'u maes ymarfer SPQ arfaethedig.

Gallant gyfathrebu gwybodaeth gymhleth mewn ffordd sy'n cefnogi, eirioli dros, galluogi a sy'n ceisio gwneud y mwyaf o gyfranogiad pobl, eu teuluoedd, gofalwyr neu berson enwebedig. Maent yn cefnogi pobl i wneud penderfyniadau a dewisiadau am eu gofal a driniaeth, gan ystyried y manteision a'r cyfleoedd ar gyfer hunanreolaeth â chymorth, ac unrhyw risgiau.

Maent yn gweithio mewn partneriaeth â phobl, cyfoedion a chydweithwyr rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol i asesu effaith gofal ar sail barhaus, gan gynnwys cefnogi a rheoli **pontio rhwng** gwasanaethau. Maent yn gwerthuso'r canlyniadau gofal ac a yw ymyriadau cynlluniedig yn parhau i fod yn effeithiol ac yn unol â dymuniadau, dewisiadau a chanlyniadau dymunol y person sy'n derbyn gofal, a all newid dros amser.

## Canlyniadau

### Bydd nyrsys cofrestredig gyda'r cymhwyster hwn yn eu maes ymarfer arfaethedig, yn gallu:

- 4.1** rheoli a gwerthuso cyfnodau gofal cymhleth o atgyfeirio i wasanaeth a chael mynediad, i ryddhau o lwyth achosion, neu atgyfeiriad i wasanaethau neu asiantaethau priodol eraill
- 4.2** asesu a rheoli'r broses o pontio pobl i wasanaethau neu asiantaethau eraill, gan gydweithio'n rhagweithiol â chydweithwyr mewn disgyblaethau ac asiantaethau eraill i ddod o hyd i atebion i liniaru unrhyw risgiau
- 4.3** cytuno a negodi gyda'r person a, lle bo angen, ei deulu, gofalwr neu berson enwebedig, goblygiadau dirprwyo unrhyw agwedd ar ei ofal i berson arall
- 4.4** cydnabod llai o [gytgord](#), newidiadau mewn cymhelliant neu anfodlonrwydd â'r cynllun gofal a thriniaeth, a gweithio mewn partneriaeth â phobl i ddylanwadu ar unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun a'u negodi
- 4.5** ymgysylltu'n rhagweithiol ag, ac eirioli'n effeithiol dros, bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill i nodi a dod o hyd i atebion lle mae anghysondeb, anghytundeb neu wrthdaro
- 4.6** cychwyn ystod o gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys gofal, ymyriadau therapiwtig a rhagnodi cymdeithasol, a all gefnogi, gwella, lleddfu symptomau neu liniaru
- 4.7** rheoli gweinyddu, optimeiddio a chysoni meddyginiaethau cymhleth yn ddiogel ac yn effeithiol, a gwerthuso'n barhaus i sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl
- 4.8** gwerthuso ac addasu cynlluniau i sicrhau mesurau diogelu digonol ar gyfer pobl pan ydynt yn agored i niwed
- 4.9** cynnal perthnasoedd therapiwtig â phobl, eu teuluoedd a/neu ofalwyr drwy gydol y cyfnod gofal a thriniaeth, a mynd i'r afael ag unrhyw safbwyntiau gwahanol
- 4.10** deall a chymhwyso amrywiaeth o dechnegau i addysgu pobl, eu teuluoedd, gofalwyr neu bersonau enwebedig am eu cyflwr, triniaeth a gofal, i hyrwyddo annibyniaeth a hyder mewn hunanofal a hunanreolaeth â chymorth
- 4.11** gweithio mewn partneriaeth â phobl, eu teuluoedd, gofalwyr ac aelodau eraill o'r tîm i fonitro a gwerthuso'n barhaus y gofal a'r driniaeth a ddarperir

- 4.12** cynnwys pobl a'u teuluoedd neu ofalwyr wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a lliniaru unrhyw risgiau o ganlyniad i newidiadau yn iechyd meddyliol a chorfforol person, ei amgylchedd byw, neu drefniadau cymdeithasol
- 4.13** gwneud penderfyniadau ymreolaethol mewn sefyllfaoedd heriol ac yn anrhagweladwy, a gallu cymryd camau priodol i asesu a rheoli risg
- 4.14** gweithio gyda phobl a, lle bo'n briodol, eu teuluoedd, gofalwyr neu berson enwebedig i gytuno a darparu gofal nyrsio sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r rhai sy'n marw neu sy'n agos at ddiwedd eu hoes
- 4.15** rhoi ystyriaeth sensitif i ddewisiadau, credoau, gofynion diwylliannol a dymuniadau'r ymadawedig a'r bobl sy'n alarus
- 4.16** esbonio'n glir a chofnodi'n gywir y rhesymeg dros benderfyniadau, y camau a gymerir a'r canlyniadau dilynol naill ai'n ysgrifenedig, neu drwy ddefnyddio technoleg ddigidol, y gellir ei rhannu â'r person, ei deulu, ei ofalwyr, y person enwebedig a thimau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol.

---

## Platfform 5

# Arwain, cefnogi a rheoli timau

Mae pob nyrs gofrestredig gyda chymhwyster ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol yn darparu, rheoli ac arwain gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'u maes arfaethedig ar draws amrywiaeth o leoliadau. Maent yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer arfer da wrth ddarparu triniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, nyrsio, gofal rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol. Maent yn gyfrifol am arwain gwasanaethau, rheoli cydgysylltu gofal unigolion, grwpiau o bobl neu lwythi achosion diffiniedig yn effeithiol. Maent yn rhoi galluoedd, anghenion, dewisiadau a buddiannau gorau pobl yn gyntaf wrth weithredu i reoli'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig â'u maes ymarfer nyrsio cymunedol arfaethedig a'r lleoliad mae'r gofal yn digwydd ynddo.

Maent yn atebol am ddirprwyo gweithgareddau i aelodau'r tîm, gan gynnwys dirprwyo i weithwyr proffesiynol rhyngasiantaethol a rhyngddisgyblaethol eraill a'r cydweithwyr hynny nad ydynt ar a gofrestr broffesiynol, ac i ofalwyr. Maent yn gallu addysgu a chefnogi datblygiad proffesiynol cydweithwyr a myfyrwyr.

Wrth arwain a rheoli tîm rhyngddisgyblaethol, maent yn gallu cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol. Maent yn gallu adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw anghytundeb neu wrthdaro rhwng y rhai hynny sy'n cynllunio ac yn darparu gofal, gan ddefnyddio sgiliau negodi ac eirioli i gyrraedd atebion sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr sy'n cydnabod galluoedd, anghenion, dewisiadau a buddiannau gorau pobl sy'n derbyn gofal. Gan ddefnyddio eu sgiliau dylanwadu a negodi, maent yn meithrin perthnasoedd gwaith proffesiynol o fewn a rhwng asiantaethau i gyflawni darpariaeth gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ddi-dor.

## Canlyniadau

### Bydd nyrsys cofrestredig gyda'r cymhwyster hwn yn eu maes ymarfer arfaethedig, yn gallu:

- 5.1** arddangos arweiniad wrth gymhwyso hawliau dynol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i wella iechyd a lles pobl, teuluoedd a chymunedau
- 5.2** arddangos arweiniad tosturiol wrth reoli timau nyrsio cymunedol, rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol, i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cefnogi lles gweithwyr proffesiynol unigol, cymell ac annog cydlyniant a chynhyrchiant y tîm
- 5.3** arwain, hyrwyddo a dylanwadu ar y proffesiwn nyrsio mewn cyddestunau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach a gwybod sut i ddylanwadu ar a gwella gofal cymunedau trwy weithio mewn partneriaeth
- 5.4** nodi asedau cymunedol lleol sydd ar gael ac ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys sefydliadau a rhwydweithiau cymorth y trydydd sector a rhai seiliedig ar ffydd, i wella cymorth a gofal pobl
- 5.5** gwerthuso ystod o ddangosyddion i bennu cymysgedd sgiliau a nodweddion priodol y gweithlu sydd eu hangen i ddiwallu anghenion llwythi achosion penodol
- 5.6** adolygu, arwain a rheoli'r bobl, yr adnoddau ariannol ac adnoddau eraill sydd eu hangen i fodloni gofynion llwythi achosion yn ddiogel, gan wneud penderfyniadau proffesiynol sy'n seiliedig ar risg pan fo angen i ddatrys problemau ynghylch adnoddau
- 5.7** llunio dadleuon grymus a chyfathrebu gwybodaeth gymhleth yn effeithiol i gyfiawnhau penderfyniadau am ddyrannu adnoddau
- 5.8** dirprwyo cyfrifoldeb am reoli cyllideb, pobl ac adnoddau eraill i aelodau'r tîm, tra'n cadw'r atebolrwydd cyffredinol
- 5.9** dadansoddi'n feirniadol eu gofynion llwyth gwaith personol ac un y tîm ehangach i arwain a blaenoriaethu gweithgareddau er mwyn rheoli galw a chapasiti
- 5.10** dirprwyo cyfrifoldebau yn ddiogel ac yn effeithiol i aelodau'r tîm yn seiliedig ar asesiad o lefel eu gwybodaeth, sgil a hyder
- 5.11** defnyddio technoleg ddigidol i wneud y defnydd gorau o adnoddau ar draws timau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol

- 5.12** caffael offer ac eitemau eraill yn unol â pholisïau caffael perthnasol, ystyriaethau ynghylch gwerth am arian a gofynion iechyd a diogelwch
- 5.13** mynegi rhesymeg glir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau cymhleth a barn broffesiynol wrth arwain timau mewn sefyllfaoedd heriol
- 5.14** myfyrio'n barhaus ar eu hymagwedd a'u hymagwedd arwain eu hunain a gweithredu i addasu eu dull arwain i wahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wrth weithio gyda thimau amrywiol a all fod yn wasgaredig yn ddaearyddol
- 5.15** defnyddio systemau'n effeithiol i fesur effaith, ansawdd, cynhyrchiant a chost-effeithiolrwydd timau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol i ganiatáu arweinyddiaeth effeithiol a rheoli perfformiad yn effeithiol
- 5.16** cynnal sgysiau gydag aelodau'r tîm i ddarparu cyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu a herio cadarnhaol, a chytuno ar unrhyw gynlluniau datblygu neu gamau gweithredu adferol yn unol â phrosesau arfarnu
- 5.17** arwain datblygiad o ddiwylliant dysgu cadarnhaol ar gyfer timau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol
- 5.18** defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau sydd ar gael i addysgu, cefnogi ac ysgogi pobl, rheoli talent a chynllunio olyniaeth
- 5.19** cymhwyso ystod o strategaethau arweinyddiaeth sy'n effeithiol o ran cefnogi datblygiad tîm cadarnhaol a chydlyniant ar draws disgyblaethau ac asiantaethau
- 5.20** dewis, gweithredu a gwerthuso strategaethau sy'n briodol i gyfansoddiad y tîm, er mwyn galluogi goruchwylio, myfyrio ac adolygu gan gymheiriaid
- 5.21** nodi galluoedd ac anghenion dysgu unigol wrth gymhwyso'r safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio cyn ac ar ôl cofrestru, er mwyn addysgu, goruchwylio ac asesu'n effeithiol.



---

## Platfform 6

# Arwain gwelliannau mewn diogelwch ac ansawdd gofal

Mae pob nyrs gofrestrdig gyda chymhwyster ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol yn arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau i wella gofal, triniaeth a gwasanaethau, i wella iechyd a lles y grŵp cleientiaid penodol y maent yn ei wasanaethu. Maent yn hyfedr mewn gwella ansawdd a methodolegau ymchwil.

Maent yn gallu manteisio ar eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad arbenigol i liniaru a rheoli'r ystod o risgiau, cwynion a phryderon sy'n gysylltiedig â darparu gofal mewn lleoliadau cymunedol amrywiol. Maent yn gallu cyfod canlyniadau gweithgareddau rheoli risg ac yn defnyddio'r rhain i ddatblygu strategaethau i hyrwyddo dysgu a gwelliant.

Maent yn gallu arwain mentrau ar gyfer gwella ansawdd ar sail tystiolaeth. Maent yn gallu dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar draws y tîm rhyngddisgyblaethol ac mewn lleoliadau rhyngasiantaethol mewn perthynas â'r gwasanaeth ehangach ac yn benodol mewn perthynas â'u maes arfaethedig o ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol.

## Canlyniadau

### Bydd nyrsys cofrestredig gyda'r cymhwyster hwn yn eu maes ymarfer arfaethedig, yn gallu:

- 6.1** dehongli deddfwriaeth a rheoliadau iechyd a diogelwch er mwyn datblygu polisi a chanllawiau lleol i gefnogi staff sy'n gweithio ar draws yr ystod o amgylcheddau cartref a chymunedol
- 6.2** gwerthuso allbynnau ac argymhellion adroddiadau risg mewnol ac allanol i alluogi blaenoriaethu, gwneud penderfyniadau a datblygu cynlluniau gweithredu i liniaru risg
- 6.3** arfer y wybodaeth, y sgiliau a'r farn broffesiynol sydd eu hangen i gydbwysu risgiau a blaenoriaethau sy'n cystadlu, cynnal asesiadau effaith ansawdd sy'n adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng diogelwch, ansawdd ac arferion lleiaf cyfyngol
- 6.4** cydgynhyrchu sstrategaethau a chynlluniau ar gyfer dylunio gwasanaethau gyda phobl, teuluoedd a chymunedau i wella canlyniadau gofal
- 6.5** defnyddio technoleg arloesol a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol i sicrhau bod data'n cael eu casglu a'u storio er mwyn gallu dadansoddi a rhagweld er mwyn llywio cynlluniau gwella gwasanaethau a diogelwch
- 6.6** dyfeisio dulliau o gasglu a gwerthuso profiadau bywyd pobl o ofal yn systematig ac yn effeithiol er mwyn arwain gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
- 6.7** gwerthuso gwahanol ddyluniadau a methodolegau ymchwil a'u cymhwyso i ddatblygu a mynd i'r afael â chwestiynau ymchwil a chynhyrchu tystiolaeth ar gyfer gwella gwasanaethau
- 6.8** cychwyn ac arwain rhaglen gwella ansawdd barhaus, dewis methodoleg gwella briodol, coladu a chyflwyno canlyniadau a chynnig camau gwella
- 6.9** gwerthuso'n feirniadol ganlyniadau cyhoeddedig ar gyfer gwerthuso gwasanaethau, canfyddiadau ymchwil, data gwella ac archwilio, a distyllu dysgu perthnasol y gellir ei gymhwyso'n ymarferol er mwyn gwella gwasanaethau
- 6.10** cyflwyno canfyddiadau ymchwil, ansawdd ac archwilio perthnasol a chynigion ar gyfer gwella gofal i ystod o gynulleidfaoedd.

---

# Platfform 7

## Cydgysylltu gofal ac arwain systemau

Mae pob nyrs gofrestredig gyda chymhwyster ymarfer nyrsio cymunedol parbenigol yn meddu ar ddealltwriaeth helaeth o bolisiau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd perthnasol a'r ffordd y maent yn effeithio ar y gymuned ehangach, ac o benderfynyddion iechyd ac anghydraddoldebau iechyd ehangach.

Maent yn deall yn fanwl swyddogaethau'r ystod o wahanol asiantaethau o fewn y gymuned sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar iechyd a lles. Maent yn deall ysgogwyr gwleidyddol ac economaidd pob asiantaeth, a'r cyfleoedd, cyfyngiadau a risgiau canlyniadol, sy'n eu galluogi i adeiladu perthnasoedd gwaith gwerthfawrogol a chynhyrchiol er budd pobl, teuluoedd a chymunedau y maent yn gweithio gyda nhw.

Maent yn gallu dylunio a darparu model effeithiol o wasanaethau nyrsio cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan fynd i'r afael â gofynion y grŵp cleientiaid penodol trwy integreiddio o fewn, a gwneud y mwyaf o gyfraniad, asiantaethau a gwasanaethau eraill. Bydd hyn yn cynnwys dealltwriaeth o'r asiantaethau a'r gwasanaethau hynny y tu hwnt i'w maes ymarfer o ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol arfaethedig, i gefnogi integreiddio a dulliau a chydweithio ar draws y system. Mae gan bob nyrs gofrestredig gyda chymhwyster arbenigol cymunedol y wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau i ddylanwadu a gweithio ar y cyd ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill i ddylunio a darparu newid cydgysylltiedig, parhaus a chynhyrchiol o fewn y cyd-destun penodol y maent yn gweithio ynddo.

Maent yn gallu defnyddio eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad o faes nyrsio cymunedol arbenigol i ddylanwadu ar dystiolaeth a chreu newid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er budd pobl, teuluoedd a chymunedau.

## Canlyniadau

### Bydd nyrsys cofrestredig gyda'r cymhwyster hwn yn eu maes ymarfer arfaethedig, yn gallu:

- 7.1** dadansoddi polisiau a sbardunau gwleidyddol ac economaidd yn feirniadol a allai gael effaith ar iechyd, gofal a lles cymunedau lleol
- 7.2** deall yr egwyddorion economaidd sy'n llywio iechyd a gofal cymdeithasol, a'u heffaith ar ddyrannu adnoddau mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol integredig
- 7.3** cyfod tueddiadau epidemiolegol, demograffig, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd i ragweld eu heffaith a dylanwad ar wasanaethau nyrsio cymunedol cyfredol a phosibl
- 7.4** meithrin perthnasoedd rhwng timau o fewn systemau gwahanol ym maes iechyd a gofal, gan werthfawrogi gwerth gwahanol ddulliau, setiau sgiliau ac arbenigedd
- 7.5** cynyddu effeithiolrwydd gwasanaethau gwahanol o fewn y system i'r eithaf trwy gydweithio a [cydgynllunio](#), gan sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio'n ddi-dor i ddiwallu anghenion pobl a chymunedau
- 7.6** defnyddio ystod o fethodolegau i ysgogi gwella gwasanaethau'n barhaus o fewn yr amrywiaeth o wahanol sefydliadau ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau
- 7.7** arwain yn rhagweithiol ar greu a datblygu rhwydweithiau systemau effeithiol sy'n gwella cyfathrebu a'r broses o wneud penderfyniadau ar draws sefydliadau ac asiantaethau
- 7.8** arddangos [cymhwysedd diwylliannol](#) ac arweinyddiaeth wrth herio diwylliannau ac ymddygiadau gwahaniaethol, gormesol ar lefel system
- 7.9** datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddylanwadu ar strategaethau a pholisiau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol
- 7.10** gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chymheiriaid ar lefel strategol i hyrwyddo a dylanwadu ar newid a gwella canlyniadau iechyd i'r bobl a'r cymunedau a wasanaethir.

---

# Geirfa

Mae'r geiriau yn yr eirfa wedi'u cynnwys i egluro eu hystyr benodol yng nghyd-destun y safonau rheoleiddio hyn. Gallai'r ystyr ehangu ar, neu fod ychydig yn fwy cynnil nag, ystyr y geiriadur ar gyfer rhai o'r geiriau hyn.

**Agored i niwed:** pobl a all fod yn agored i niwed ar adeg benodol ac mewn sefyllfaoedd penodol (ond nid mewn sefyllfaoedd eraill), oherwydd eu nodwedd(ion) personol, sefyllfa(oedd) neu esgeulustod, ac felly mewn mwy o berygl o niwed posibl neu wirioneddol. Gall y math o niwed fod yn emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol, materol neu ariannol.

**Archwiliad:** asesiad meddyliol a chorfforol a gynhelir gyda chaniatâd ar berson sy'n derbyn gofal.

**Asedau cymunedol:** adnoddau y gellir eu defnyddio i gyfrannu ar ddatblygu a gwella iechyd a lles lleol. Gall gynnwys pobl a'u gwybodaeth, sgiliau, rhwydweithiau a pherthnasoedd, strwythurau ffisegol, gwasanaethau lleol, busnesau, elusennau a chronfeydd.

**Asesiad cyfannol:** casglu, dadansoddi a didoli ffynonellau lluosog o arsylwadau a gwybodaeth am unigolyn neu bobl er mwyn llywio ymyriadau i wella iechyd. Mae'r ffocws ar y person cyfan, nid ar salwch posibl neu salwch gwirioneddol yn unig.

**Canolbwyntio ar yr unigolyn:** lle mae'r person yn ganolog i wneud penderfyniadau, canolbwyntio gofal ar alluoedd ac anghenion person, sicrhau bod dewisiadau, galluoedd, anghenion a gwerthoedd pobl yn llywio penderfyniadau clinigol, a darparu gofal a chymorth sy'n parchu iddynt ac yn ymatebol iddynt.

**Cydgynhyrchu:** dull partneriaeth sy'n dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i atebion a rennir ac sy'n cynnwys partneru â phobl o ddechrau i ddiwedd unrhyw fenter neu newid sy'n effeithio arnynt.

**Cydgynllunio:** mewn iechyd a gofal mae'n golygu partneriaeth gyfartal o weithwyr proffesiynol, pobl neu grwpiau o bobl cynrychiadol sy'n dod at ei gilydd i gynllunio llwybrau gofal, datblygu llwybrau newydd ac adolygu gwasanaethau, modelau neu systemau presennol.

**Cymhwysedd diwylliannol:** arddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sy'n parchu ac yn ymateb i anghenion diwylliannol pobl a chymunedau amrywiol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal.

**Cytgord:** cytundeb y daethpwyd iddo ar ôl negodi rhwng person sy'n derbyn gofal a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n parchu credoau a dymuniadau'r person, er enghraifft, wrth benderfynu a yw'r cynllun gofal yn cael ei gyflawni fel y cytunwyd, neu pryd a sut y dylid cymryd meddyginiaethau.

**Egwyddor rhagdybio galluedd:** un o'r pum egwyddor allweddol o dan ddeddfwriaeth galluedd meddyliol y Deyrnas Unedig. Mae'r egwyddor yn datgan bod gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei penderfyniadau ei hun a rhaid rhagdybio bod ganddynt y galluedd i wneud hynny oni bai y profir fel arall. Mae hyn yn golygu na allwn gymryd yn ganiataol na all rhywun wneud penderfyniad drostynt eu hunain dim ond

oherwydd bod ganddynt gyflwr meddygol neu anabledd penodol.

**Gallai hyn gynnwys:** pontio o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau gofal oedolion, o ofal sylfaenol a chymunedol i ddarpariaeth gofal cleifion mewnol arbenigol, o gofal cymdeithasol cartref i oedolion, o ofal cartref i hosbis neu drosglwyddo gofal o weithiwr proffesiynol mewn un ddisgyblaeth i weithiwr proffesiynol arall mewn proffesiwn gwahanol.

**Gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth:** gofal a roddir sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf yn y maes, gan sicrhau ei bod yn ystyried galluoedd, anghenion a dewisiadau personol y person. Mae hefyd yn cynnwys y nyrs yn llunio barn bersonol yn seiliedig ar brofiad, arsylwadau a galluoedd, anghenion a dewisiadau'r person pan fo tystiolaeth yn gyfyngedig.

**Llwyth achosion:** mae llwyth achosion yn cyfeirio at y bobl a wasanaethir a'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â chefnogi pobl sydd angen gofal gan wasanaethau nyrsio cymunedol dros gyfnod penodol mewn ardal benodol.

**Llythrennedd iechyd:** y graddau y gall unigolion dderbyn, prosesu, a deall gwybodaeth a gwasanaethau iechyd sylfaenol sydd eu hangen er mwyn gwneud penderfyniadau priodol am iechyd.

**Nyrsio cymunedol:** gofal a ddarperir gan nyrsys yn y gymuned gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ofal nyrsio a ddarperir lle mae pobl yn byw, gartref neu'n agos at

eu cartrefi, mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion, lleoliadau addysgol, gofal sylfaenol, clinigau cymunedol, canolfannau allgymorth, iechyd a chyfiawnder a lleoliadau neu sefydliadau cymunedol eraill.

**Penderfyniad er lles pennaf:** penderfyniad a wneir dros ac ar ran person yr aseswyd ei fod heb alluedd i wneud penderfyniad ar yr adeg honno. Dyma un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ddeddfwriaeth galluedd meddyliol ar draws y Deyrnas Unedig.

**Penderfynyddion iechyd:** yn cynnwys yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd, yr amgylchedd ffisegol a nodwedddion ac ymddygiad unigol y person.

**Person enwebedig:** mewn rhannau o'r DU, mae rôl y person enwebedig yn bodoli mewn deddfwriaeth iechyd meddwl/galluedd. Mae hwn yn rhywun y mae unigolyn yn ei ddewis i'w gynrychioli. Os nad oes gan y person y galluedd i enwebu, bydd person enwebedig interim yn cael ei benodi gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy (AMHP) hyd nes y bydd gan y person alluedd i wneud ei enwebiad ei hun. Yn yr Alban y term cyfatebol yw 'Person a enwir'.

**Pobl:** unigolion, grwpiau neu boblogaethau sy'n derbyn gwasanaethau gan nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio, pobl iach a sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, unigolion enwebedig, gan gynnwys hefyd addysgwyr a myfyrwyr ac eraill o fewn a thu allan i'r amgylchedd dysgu.

---

**Pontio gofal:** mae pontio gofal yn rhan annatod o daith unigolyn ar draws systemau iechyd a gofal. Cydnabyddir bod pontio gofal yn peri risgiau am nifer o resymau. Felly er mwyn rheoli'r gwaith o gydgyssylltu a phontio pobl yn ddiogel ac yn effeithiol o un man gofal i'r llall, neu rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol, mae angen cydweithredu effeithiol i sicrhau parhad gofal di-dor, di-risg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Ymarfer arbenigol:** yn rhagori ar y safonau hyfedredd a ddisgwylir ar gyfer nyrsys cofrestredig mewn meysydd megis asesu, diagnosio, gwneud penderfyniadau, cynllunio gofal, cydlynu gofal a darparu gofal sy'n benodol i berson, cyd-destun, lleoliad neu grŵp cleientiaid penodol.



---

# Pwy ydym ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 808,000\* o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw rheoleiddio. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio - rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

**nmc**  
**Cyngor**  
**Nyrsio a**  
**Bydwreigiaeth**

23 Portland Place,  
London W1B 1PZ  
+44 20 7333 9333

[www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)

 @nmcnews  @nmcuk

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.